



Cyllideb Ddrafft 2018

Mae Llywodraeth Cymru heddiw wedi cyhoeddi ei drafft gynigion manwl ar gyfer cyllideb 2019/20. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi drafft gynigion pennawd y gyllideb gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, ar 2 Hydref. Mae'r gyllideb yn nodi cylluniau gwariant refeniw'r Llywodraeth am 12 mis a gwariant cyfalaf am gyfnod dwy flynedd o fis Ebrill 2019.

Ar ffurf drafft mae'r cynigion ar hyn o bryd a gallant newid, gydag angen pleidlais yn y Cynulliad i gymeradwyo'r cynigion cyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r penawdau allweddol o gyhoeddiad heddiw yn cynnwys:

- £500m o gyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth greiddiol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Gostyngiad o 0.3% mewn cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol
- Cadarnhad fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu ein cynigion Materion Tai Cymru i warchod cyllid ar gyfer cymorth cysylltiedig â thai
- Cynnydd o £35m yn y gyllideb Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2019/20
- Cynnydd o £20m mewn cyllid ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig
- Cynnydd o 31% mewn cyllid cyfalaf ar gyfer Adfywio.

Cyhoeddiadau manwl y gyllideb:

1. Cefnogi Pobl a Materion Tai

Bu'r rhaglen Cefnogi Pobl yn grant wedi'i neilltuo ers nifer o flynyddoedd, gan olygu y bu'n rhaid i awdurdodau lleol wario eu dyraniad ar wasanaethau digartrefedd a chymorth cysylltiedig â thai yn unol gydag amodau'r grant. Fodd bynnag, cynigiodd cyllideb llynedd Llywodraeth Cymru i uno Cefnogi Pobl gyda naw grant arall i ffurfio un grant Ymyriad Cynnar: Atal a Chymorth (EIPS) ar gyfer 2019/20. Byddai hyn wedi golygu na fyddai cyllid Cefnogi Pobl yn cael ei



neilltuol, ac felly'r warant y caiff ei wario ar y gwasanaethau hynny. Roedd y grant cyfun a gynigid hefyd yn cynnwys y Grant Atal Digartrefedd, a ddefnyddir i gyllido gwasanaethau awdurdod lleol sy'n atal a lliniaru digartrefedd.

Mae CHC wedi gweithio'n agos gyda Cymorth Cymru a phartneriaid eraill i lobio Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac wedi creu datrysiad amgen dan ymgyrch *Materion Tai Cymru*. Roedd ein cynigion yn rhannu'r grant EIPS arfaethedig yn ddau grant neilltuol, gyda ffocws un ar ddigartrefedd a thai.

Rydym yn falch iawn i'r Ysgrifennydd Cyllid gadarnhau yn ei ddatganiad i'r Cynulliad ar 2 Hydref y gwrandawyd ar bryderon y sector ac y byddid yn creu Grant Cymorth Tai neilltuol.

Mae'r ddrafft gyllideb fanwl yn cadarnhau gwahanu'r Grant EIPS yn ddau grant neilltuol:

Grant	Cyllid	Pa ffrydiau cyllid mae'r grant yn eu cynnwys?
Grant Cymorth Tai	£126.76m	<ul style="list-style-type: none">• Rhaglen Cefnogi Pobl (£124.5m)• Cyllid Cefnogi Cymunedau (£1.7m)• Grantiau amrywiol cysylltiedig â thai (£0.5m)
Grant Plant a Chymunedau	£135.42m	<ul style="list-style-type: none">• Gofal Plant a Chwarae• Gwaddol Cymunedau yn Gyntaf• Cymunedau am Waith a Mwy• Dechrau'n Deg• Teuluoedd yn Gyntaf• Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol ar gyfer Pobl Ifanc mewn Risg o Trosedd• Cronfa Dydd Gŵyl Dewi

Mae cyllid Atal Digartrefedd, yn cynnwys Grant Atal Digartrefedd, yn parhau'n llinell ar wahân yn y gyllideb fanwl gyda chadw cyllid ar y £17.9m a nodwyd yn flaenorol yng nghyllideb y llynedd, yn cynrychioli cynnydd o 81% ar gyllid y llynedd o £9.9m. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn adlewyrchu ymrwymiad Prif Weinidog Cymru i ddod â digartrefedd ieuenctid i ben ac ymestyn Tai yn Gyntaf.

Effaith

Croesewir y cyhoeddiad hwn ac mae'n rhoi mwy o sicrwydd i gymdeithasau tai a darparwyr cymorth i gynllunio gwasanaethau ar gyfer yr hirdymor ac yn ein galluogi i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i adolygu a gwella ein



gwasanaethau cyfredol. Mae dogfennau manwl y gyllideb yn cadarnhau y bydd y trefniadau hyn yn parhau yn eu lle ar gyfer holl dymor y Cynulliad.

2. Cynyddu'r cyflenwad a dewis o dai fforddiadwy

Yn unol â chytundeb CHC gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a tharged Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn nhymor hwn y Cynulliad, mae buddsoddiad sylweddol parhaus mewn tai fforddiadwy drwy'r holl gyllideb.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cyllid yn gynharach yn y mis y byddai cynnydd o £35m mewn Grant Tai Cymdeithasol yn 2019/20 a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y gyllideb, gan fynd â chyfanswm cyllideb Grant Tai Cymdeithasol 2019/20 i £138.2m. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol iawn ar y £207m yng nghyllideb 2018/19 ond mae'n dal i fod yr elfen ail uchaf o Grant Tai Cymdeithasol a ddyrannwyd yn ystod tymor hwn y Cynulliad.

Ymhellach i hyn, mae cadarnhad o'r ymrwymiad blynyddol parhaus o £10m i'r cynllun Tir ar gyfer Tai Fforddiadwy a chadarnhawyd cyllid Adfywio ar £28.7m, cynnydd o 31%.

Effaith

Mae cymdeithasau tai yn allweddol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn nhymor hwn y Cynulliad, a bydd y cyllid ychwanegol yma yn rhan bwysig o gyflawni'r targed hwnnw. Wrth ochr y cartrefi hynny a gyflwynwyd drwy gyllid grant, mae cymdeithasau tai wedi darparu - ar gyfartaledd - tua 25% o'u cartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn flynyddol heb grant.

Mae CHC yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddarparu cytundeb cyflenwad tai ac rydym yn parhau i gyflwyno'r achos dros lefelau buddsoddiad cyson uchel i roi sicrwydd a hyder i fwrdd cymdeithasau tai i gynllunio datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

3. Cronfa Gofal Integredig

Nod y Gronfa Gofal Integredig yw gyrru a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector yn ehangach. Bu CHC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid mewn llywodraeth leol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG ar gyflwyno'r gronfa hollbwysig yma, a rydym yn falch i weld cadarnhad o'r cyllid ychwanegol yn y Ddrafft Gyllideb.



Mae'r gyllideb fanwl yn cadarnhau'r cyllid cyfalaf dilynol:

Blwyddyn	Cynlluniau yng nghyllideb 2018/19	Cynlluniau newydd yn y ddrafft gyllideb
2019/20	£15m	£35m
2020/21	£0	£20m

Effaith

Bu integreiddio iechyd a thai yn flaenoriaeth allweddol i lawer o gymdeithasau tai ers nifer o flynyddoedd a bydd y cyllid cyfalaf hwn yn rhoi cyfleoedd i symud y gwaith ymlaen. Caiff y cyllid ei gyflwyno gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn dilyn yr Adolygiad Seneddol o Iechyd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion am fwy o gynrychiolaeth o'r sector tai ar y Byrddau hyn. Maent yn ymgynghori ar y cynigion hyn ar hyn o bryd [yma](#). Mae CHC yn ymateb i'r ymgynghoriad, gyda dyddiad cau o ddydd Gwener 26 Hydref.

4. Rhaglen Tai Arloesol

Mae cynigion manwl y gyllideb yn gadarnhau dyraniad o £45m i'r Rhaglen Tai Arloesol yn 2019-20, gyda ffocws ar brofi modelau tai newydd, addas i'r dyfodol yn nhermau ansawdd ac effeithiolrwydd ynni. Mae hyn yn dilyn cadarnhad yr wythnos ddiwethaf o'r [cynigion llwyddiannus diweddaraf](#) ar gyfer ail ran y raglen fydd yn gweld darparu 657 o gartrefi newydd.

Effaith

Gwnaeth nifer o gymdeithasau tai gynigion llwyddiannus ar gyfer cyllid ar gyfer tai newydd drwy'r Rhaglen Tai Arloesol a bydd yr ymrwymiad cyllid ychwanegol hwn yn creu mwy o gyfleoedd. Deallwn y bydd trydydd cylch cyllid ar gyfer y rhaglen yn agor yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.